# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 27 Medi 2021** |
| Amser: | **12.30 - 14.15** |

## Cofnodion: SC(6)2021(2)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Rhun ap Iorwerth AS**<br>**Janet Finch-Saunders AS**<br>**Ken Skates AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol**<br>**Lowri Williams, Pennaeth Adnoddau Dynol a Chynhwysiant**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

### 1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

### 1.b Datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

1.c Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nodwyd cofnodion cyfarfod y Comisiwn ar 12 Gorffennaf.

## 2 Cyllideb y Comisiwn 2022-23

Trafododd y Comisiynwyr y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23, a adlewyrchodd y strategaeth y cytunwyd arni yng nghyfarfod y Comisiwn ar 12 Gorffennaf.

Fe wnaethant ystyried blaenoriaethau o ran prosiectau ar gyfer 2022-23 a'u dull o fynd i'r afael â'r pwysau ychwanegol tebygol ar Gyllideb Ddrafft 2022-23, yn dilyn y cyhoeddiad diweddar am gynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Cytunodd y Comisiynwyr i osod cyllideb ddrafft y Comisiwn o £62.942 miliwn, gan nodi y gallai cyhoeddiadau cyllideb y DU alw am ystyriaethau diweddarach ynghylch cyllideb atodol.

At hynny, nododd y Comisiwn ddatganiad o egwyddorion y Pwyllgor Cyllid, a'r llythyr a anfonwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

## 3 Adroddiad Dyfodol Ystwyth

Rhoddodd y Comisiynwyr sylwadau cadarnhaol ar y gwaith a wnaed i gasglu'r gwersi a'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol o brofiad y pandemig fel y gellid ystyried y gwerth strategol hirdymor o gael y Senedd a'r Comisiwn yn sefydliad mwy hyblyg, ymatebol a chynaliadwy.

Cadarnhawyd bod cynnwys y papur yn cofnodi'r profiad a'i fod yn sail dda ar gyfer cyfeiriad strategol dyheadau'r Comisiwn ar gyfer y dyfodol.

Awgrymodd y Comisiynwyr y dylid trafod ymhellach yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried fel mesur llwyddiant.

Nododd y Comisiynwyr y byddai'n ddefnyddiol i'r Aelodau weld crynodeb, ac y byddai'n creu sail ar gyfer trafodaeth ddefnyddiol gyda nhw am eu hanghenion wrth i'r anghenion hynny, i gyflawni eu dyletswyddau yn y Chweched Senedd, ddod yn fwy amlwg dros y cyfnod sydd i ddod.

## 4 Diweddariad ynghylch COVID-19

Cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth am y diweddariad diweddaraf i'r rheoliadau COVID-19. Fe wnaethant drafod y wybodaeth sydd ar gael am y niferoedd sy'n defnyddio profion llif unffordd ar gyfer dod i'r safle.

Trafododd y Comisiynwyr y bwriad i atgyfnerthu negeseuon am y mesurau sydd ar waith i gadw'r ystâd yn ddiogel ac i leihau'r effeithiau ar barhad busnes.

Nododd y Comisiynwyr y wybodaeth a rhoddodd sylwadau ar bwysigrwydd pobl yn gwybod am rif adnabod y Senedd ar gyfer adrodd canlyniadau profion llif unffordd, a bod angen cydnabod lle mae'r feirws yn parhau i effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd.

## 5 Diweddariad ynghylch yr agoriad swyddogol

Rhoddwyd amlinelliad i'r Comisiynwyr o'r cynlluniau ar gyfer yr Agoriad Swyddogol, a fyddai'n cael ei gynnal ar Ystâd y Senedd ym mis Hydref.

Fe wnaethant nodi trefn y rhaglen a chytunwyd ar ddull o ymdrin ag agweddau ar liniaru risg, yn ymwneud â'r sefyllfa COVID barhaus, yn benodol o ran defnyddio profion llif unffordd a masgiau wyneb, heblaw am y rhai y mae angen iddynt siarad fel rhan o'r agoriad.

## 6 Rhwydwaith Gwresogi Ardal

Trafododd y Comisiynwyr Gynllun Gwresogi Ardal Caerdydd, yr oedd gan y Comisiwn y dewis i ymuno ag ef fel y prif "gleient allweddol".

Byddai'r cynllun yn cefnogi cyflenwi Strategaeth Carbon Niwtral y Comisiwn. Trafododd y Comisiynwyr faterion yn ymwneud ag anghenion yr ystâd, ffynhonnell yr ynni a pherfformiad thermol y Senedd a Thŷ Hywel.

Cytunodd y Comisiynwyr y byddai'r Comisiwn yn ymuno â Chynllun Gwresogi Ardal Caerdydd, ar yr amod bod y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cytuno ar unrhyw newidiadau terfynol i ddrafftio'r contract arfaethedig.

## 7 Rôl y Prif Gynghorydd Cyfreithiol

Nododd y Comisiynwyr wybodaeth a ddarparwyd am y camau nesaf yn y cynllun i recriwtio aelod rhan-amser parhaol o staff y Comisiwn fel Prif Gynghorydd Cyfreithiol.

Gwnaed hyn yn unol â'r ddirprwyaeth i'r Prif Weithredwr a'r Clerc.

Nododd y Comisiynwyr y bwriad i barhau at y broses recriwtio a chytunodd i gefnogi estyniad tymor byr pellach i'r trefniadau dros dro presennol am hyd at dri mis (os oes angen).

## 8 Papurau i'w nodi:

### 8.a Ymateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - gwariant gyda chyflenwyr o Gymru

Nododd y Comisiwn wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn ymateb i gais bod y Comisiwn yn ysgrifennu, erbyn mis Medi 2021, i nodi pa ymgysylltiad y mae wedi'i wneud â chyrff cyhoeddus eraill, a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i wella gwariant gyda chyflenwyr o Gymru o ganlyniad.

### 8.b Llythyr y Pwyllgor Deisebau - alcohol ar yr ystâd

Nododd y Comisiynwyr lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau.
Ni wnaeth y Comisiynwyr geisio gwneud unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol, sydd wedi'i chynnwys yn y Polisi ar gyfer defnyddio'r Ystâd, sef na chaiff ein trwyddedeion werthu na gweini alcohol i'w yfed ar ystâd y Cynulliad cyn 6pm yn ystod yr wythnos yn ystod y tymor.

### 8.c Diweddariad gan y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb arferol o benderfyniadau o ran recriwtio a ddarparwyd.

### 8.d Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Mehefin)

Nododd y Comisiynwyr gofnodion cyfarfod y Pwyllgor.

## 9 Unrhyw fater arall

Caplaniaeth – trafododd y Comisiynwyr nodyn a ddaeth i law gan gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd. Roedd Aelodau'r Comisiwn yn cydymdeimlo â'r pwynt a wnaed, ond roeddent yn ymwybodol o faterion ymarferol ac nid oeddent yn dymuno symud i drefniant ffurfiol heb ymgynghori'n fwy cynhwysfawr â'r Aelodau.

Diogelu – cytunodd y Comisiynwyr i gael gwybodaeth sy’n rhoi amlinelliad o’r ystyriaethau.

Amodau Diogelwch a Defnyddio TGCh – nododd y Llywydd ei bod wedi ysgrifennu at Aelodau am y paramedrau ynghylch y system a'i bod yn bwriadu trafod hyn gyda'r grwpiau.